Teitl y Swydd: Technegydd Arddangoswr mewn Technolegau Rhaglenadwy a Digidol

Uned/Ysgol: Ysgol Celf a Dylunio Caerdydd

Gradd: 6AB

HERA: CSAD36

## Prif bwrpas y rôl

Bydd y Technegydd Arddangoswr mewn technolegau rhaglenadwy wedi'i leoli ar gampws Llandaf, ac yn cynnal amrywiaeth o weithdai uwch sy'n canolbwyntio ar sgiliau lefel uchel ar draws yr Ysgol.

Mae dysgu, ymchwil a menter yn Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd (YGDC) yn aml yn seiliedig ar ymarfer, yn arbrofol ac yn seiliedig ar brofiad. Mae'n dibynnu ar reolaeth gadarn a gwybodus o bob gweithdy a stiwdio, ac ar ddarparu cyfleoedd yn effeithiol ar gyfer datblygu sgiliau – yn seiliedig ar arddangosiadau ac arweiniad gan Dechnegwyr Arddangoswyr (TA) medrus – mewn amgylcheddau sy'n cael eu monitro a'u cynnal er lles iechyd a diogelwch y defnyddwyr.

Fel aelod allweddol o'r staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda myfyrwyr, ac o dan oruchwyliaeth uniongyrchol y Rheolwr Adnoddau, mae'r Technegydd Arddangoswr yn gyfrifol am: gynnal sesiynau cyflwyno ac arddangos sgiliau yn eu maes arbenigedd; rheoli deunyddiau, offer, a chyfleusterau stiwdio a gweithdy yn effeithiol; darparu cyngor technegol ffurfiol ac anffurfiol ar ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer gwaith stiwdio a gwaith arall; cydlynu â'r tîm technegol a chydweithwyr academaidd a staff gwasanaethau proffesiynol; a chyflawni unrhyw dasgau perthnasol eraill a ddirprwyir iddynt.

Mae'r rôl yn gofyn am lefel uchel iawn o arbenigedd technegol, y gallu i gyfathrebu'n dda â myfyrwyr, y gallu i weithio gydag academyddion a gweinyddwyr gyda hyblygrwydd a sylw i fanylion, gallu rhagorol i reoli offer, adnoddau a gofodau, ac angerdd dros bopeth y gall ysgol gelf ei gyflawni.

## Cyfrifoldebau a chyfraniadau allweddol

Bydd rôl y Technegydd Arddangoswr yn cynnwys rhai o'r dyletswyddau canlynol, neu bob un ohonynt, yn unol â chyfarwyddyd y Rheolwr Adnoddau a/neu'r prif dechnegydd arddangoswr, ac yn cael eu cyflawni ar y cyd ag arweinwyr modiwlau ac aelodau eraill o'r staff academaidd:

- Goruchwylio arferion a phrosesau creadigol yn gweithdai ac stiwdios YGDC er mwyn hwyluso dysgu myfyrwyr. Darparu cymorth ymarferol a thechnegol a sicrhau mynediad priodol at ddeunyddiau ac offer.

- Datblygu a chyflwyno gweithdai ymarferol mewn technolegau rhaglenadwy, electroneg syml, a chreu prototeipiau prosiectau yng nghyd-destun arferion creadigol.

- Datblygu a chynnal eich sylfaen sgiliau a'ch gwybodaeth eich hun, gan sicrhau eich bod yn gyfarwydd â thechnegau a datblygiadau newydd ac sy'n dod i'r amlwg. Defnyddio gwybodaeth newydd wrth gynnal arddangosiadau ac wrth gefnogi myfyrwyr.

- Cynnal gwybodaeth am ofynion y cwricwlwm ar gyfer cymorth mewn gweithdai a stiwdios, er mwyn sicrhau bod cymorth technegol yn cael ei deilwra i ganlyniadau dysgu. Nodi ac adolygu unrhyw feysydd ar gyfer datblygu pellach, er mwyn gwella profiad y myfyrwyr.

- Cynghori myfyrwyr a darparu sesiynau hyfforddi technegol ar gymhwyso technolegau rhyngweithiol i brosiectau creadigol.

- Datblygu deunyddiau a chynnwys dysgu i'w defnyddio yn ein hamgylchedd dysgu rhithwir.

- Cynnal gweithdy electroneg symudol; sicrhau bod deunyddiau priodol yn cael eu cyrchu a'u stocio, caffael cyflenwadau a darparu deunyddiau i fyfyrwyr yn unol â pholisïau caffael a pholisïau'r ysgol.

- Sicrhau bod yr holl offer o fewn eu maes/meysydd cyfrifoldeb yn eu lle ac yn gweithio'n effeithiol ac yn ddiogel, a chynnal rhestrau eiddo.

- Paratoi a gweithredu amserlen waith cynnal a chadw, a chynghori'r Ysgol ynghylch yr angen am offer a'r opsiynau ar gyfer eu diweddaru a'u disodli, er mwyn sicrhau bod yr adnoddau priodol ar gael.

- Iechyd a Diogelwch; sicrhau diogelwch staff, myfyrwyr ac ymwelwyr drwy ddatblygu gweithdrefnau gweithio diogel, cynnal asesiadau risg ac asesiadau COSHH, a sicrhau bod yr holl arferion gweithio diogel yn cael eu dilyn. Darparu cyngor, yn ôl yr angen ac ar adegau priodol, ynghylch risgiau ac asesu risg sy'n gysylltiedig â gwaith sy'n seiliedig ar ymarfer ac arddangosfeydd ar safleoedd y tu allan i'r Brifysgol.

- Gweithio ar y cyd â staff academaidd a thechnegol i lunio a datblygu'r ddarpariaeth dechnegol ymhellach.

- Cynorthwyo gyda threfnu ac ailosod arddangosfeydd gradd blynyddol, a chynorthwyo cydweithwyr technegol eraill yn ôl yr angen.

- Unrhyw ddyletswyddau a chyfrifoldebau rhesymol eraill y gellir eu gofyn amdanynt o bryd i'w gilydd.

Manyleb person

Cymwysterau hanfodol / Aelodaethau proffesiynol

1. Gradd neu gymhwyster cyfatebol mewn pwnc perthnasol, fel dylunio cynnyrch neu beirianneg, electroneg neu roboteg, neu brofiad sylweddol o gymwysiadau creadigol o dechnolegau rhaglenadwy.

Profiad, gwybodaeth a sgiliau hanfodol

1. Sgiliau technegol/arbenigol y gellir eu dangos mewn disgyblaeth berthnasol, a diddordeb profedig mewn datblygu sgiliau yn barhaus.
2. Dangos gwybodaeth eang ac ymarferol o electroneg a dylunio PCBs.
3. Gallu blaenorol o raglennu electroneg gan ddefnyddio systemau fel Arduino, Raspberry Pi ac ESP32.
4. Y gallu i baratoi a chyflwyno gweithgareddau gweithdy a deunydd perthnasol mewn mannau rhithwir yn ogystal â mannau ffisegol.
5. Y gallu i gyfathrebu'n dda ac i gyflwyno materion mewn modd clir a chryno.
6. Ymrwymiad a diddordeb clir mewn maes arbenigedd, ynghyd â'r awydd i rannu gwybodaeth draddodiadol a chyfoes ac i ysgogi myfyrwyr.
7. Y gallu i reoli offer, adnoddau a gofodau.
8. Y gallu i weithio'n ymarferol fel rhan o dîm i gyflawni nodau o fewn amserlen benodol.
9. Y gallu i gynnal ystod berthnasol o weithdai uwch, lefel uchel sy'n seiliedig ar sgiliau, yn ymwneud ag amrywiaeth o gyrsiau a myfyrwyr YGDC.
10. Gwybodaeth ymarferol am fesurau a gofynion diogelwch trydanol.
11. Ymrwymiad i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau yn barhaus.
12. Y gallu i ddatrys problemau technegol yn greadigol.

Dymunol

1. Profiad o gynnal asesiadau risg ac asesiadau COSHH.

2. Profiad o gynnal gweithdai, addysgu neu roi hyfforddiant mewn lleoliad addysg uwch

3. Y gallu i gynnal profion PAT.

**Gofynion sgiliau Cymraeg**

Mae'r Gymraeg yn hanfodol i'n myfyrwyr a'n staff ac mae'n rhan allweddol o'n darpariaeth a'n gwasanaethau. Ar gyfer pob swydd ym Met Caerdydd, mae hyfedredd yn y Gymraeg naill ai'n hanfodol neu'n ddymunol. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y lefelau drwy edrych ar ein llyfryn: Lefelau sgiliau Cymraeg. Os yw sgil wedi'i rhestru fel un hanfodol yn y tabl isod, gwnewch yn siŵr eich bod yn gwneud hyn glir yn eich ffurflen gais ar-lein.

| Lefel iaith a disgrifydd | Gwrando | Darllen | Siarad | Ysgrifennu |
|---|---|---|---|---|
| **A1 – Dechreuwr**<br>Yn gallu deall a defnyddio dywediadau cyfarwydd bob dydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg. | | | | |
| **A2 - Defnyddiwr sylfaenol**<br>Yn gallu delio â gwybodaeth gyffredin a syml a chyfathrebu mewn Cymraeg sylfaenol. | | | | |
| **B1 - Defnyddiwr canolradd**<br>Yn gallu cyfathrebu, i lefel gyfyngedig, yn y Gymraeg am bethau sy'n gyfarwydd a/neu'n gysylltiedig â gwaith. | | | | |
| **B2 - Defnyddiwr canolradd uwch**<br>Yn gallu mynegi fy hun yn y Gymraeg ar ystod o bynciau a deall y rhan fwyaf o sgwrs â siaradwr brodorol. | | | | |
| **C1 - Defnyddiwr rhugl**<br>Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg. | Dymunol | Dymunol | Dymunol | Dymunol |
| **C2 - Meistrolaeth**<br>Yn gallu cyfathrebu'n rhugl ar faterion cymhleth ac arbenigol yn Gymraeg. | | | | |

Gofynion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Nid yw'r swydd hon yn gofyn am wiriad DBS.

Gwybodaeth ategol

Mae'r Brifysgol yn sefydliad deinamig, ac efallai y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Nid yw'r disgrifiad swydd a'r fanyleb person hwn wedi'u bwriadu i fod yn gynhwysfawr.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau ymddygiad moesegol a phroffesiynol uchaf. Felly, disgwylir i bob gweithiwr roi ystyriaeth briodol i effaith eu hymddygiad a'u hymddygiad personol ar y Brifysgol, myfyrwyr, cydweithwyr, rhanddeiliaid busnes a'n cymuned. Rhaid i bob gweithiwr ddangos eu bod yn cadw at ein Cod Ymddygiad Proffesiynol. Yn ogystal, dylai pob gweithiwr roi sylw arbennig i'w cyfrifoldebau o dan bolisïau a gweithdrefnau Prifysgol Metropolitan Caerdydd.